**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

Vaughan Gething
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Mawrth 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle gallent adael y man lle maent yn byw ac atal chynulliadau o grwpiau o fwy na dau o bobl. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau cyhoeddus a thir penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan y weithdrefn frys a ddarperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir cymryd mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad i iechyd pobl gan coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i achosion o heintio neu ledaenu heintiau neu halogiad yng Nghymru. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu safleoedd os bydd, neu mewn ymateb i, fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i “the appropriate Minister” ("Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion fel na allant ond gadael y lle y maent yn byw ynddo os oes ganddynt esgus rhesymol. Mae hyn yn cynnwys at ddibenion cael bwyd, meddyginiaeth neu ddarpariaethau hanfodol, cael mynediad at wasanaethau penodedig, ymarfer unwaith y dydd, ceisio cymorth meddygol, teithio i'r gwaith os nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud y gwaith gartref, i roi gwaed, i fynychu angladd aelod o'r teulu, neu ar gyfer bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ni chaniateir chynulliadau cyhoeddus o fwy na dau o bobl oni bai bod pawb yn y cynulliad o'r un aelwyd, neu os yw'r cynulliad yn hanfodol ar gyfer gwaith, yn ymateb i argyfwng, neu'n galluogi presenoldeb mewn angladd.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion ar fusnesau. Maent yn rhestru yn Atodlen 1 rhai busnesau y mae’n rhaid iddynt gau, gan gynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd a diod i'w bwyta neu i’w hyfed ar eu mangre, ond gallant barhau i wneud hynny os ydynt yn gwerthu bwyd a diod i'w bwyta neu i’w hyfed oddi ar eu mangre; busnesau penodol y mae'n rhaid iddynt gau ond a fydd, ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol, yn gallu darparu rhai gwasanaethau penodol, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n hyglwyf a gwasanaethau brys ar eu safleoedd; a rhai busnesau a all aros ar agor, ond y mae'n rhaid iddynt gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o ddau fetr rhwng unigolion ar eu mangre.

Er bod y Rheoliadau hyn yn dirymu dau set o Reoliadau Diogelu Iechyd[1] a wnaed mewn ymateb i fygythiadau coronafeirws i iechyd y cyhoedd, maent hefyd yn adfer y gofynion ar gyfer cau busnesau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w bwyta neu i’w hyfed ar eu mangre (fel y manylir uchod), safleoedd gwyliau, safleoedd gwersylla, arcedau diddanu a chanolfannau chwarae dan do, i amddiffyn rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o coronafeirws. Maent hefyd yn parhau â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed neu dir mynediad er mwyn atal niferoedd mawr o bobl rhag ymgasglu neu fod yn agos

[1] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 a’r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020

at ei gilydd, a’r ddyletswydd i gyhoeddi rhestr o'r rhai sydd wedi cau ar eu gwefannau.

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau hyn, gan gynnwys pwerau i gyfarwyddo pobl i ddychwelyd i'r man lle maent yn byw neu i'w symud i'r lle hwnnw ac i wasgaru cynulliadau.  Mae torri’r gofynion yn y Rheoliadau yn drosedd y gellir ei chosbi â dirwy (heb gyfyngiad), ac mae'r Rheoliadau'n caniatáu i hysbysiadau cosb benodedig (hyd at £60, neu £120 pan fo’r person sy’n derbyn yr hysbysiad cosb benodedig eisoes wedi derbyn hysbysiad o dan y Rheoliadau) gael eu dyroddi, fel dewis arall yn lle dwyn achos troseddol. Gwneir darpariaeth hefyd i roi pŵer mynediad os oes gan berson perthnasol sail resymol dros amau bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael ei dorri, lle yr ystyrir bod hynny'n angenrheidiol er mwyn canfod a yw wedi'i dorri.

Mewn perthynas â'r gofyniad i gau mangreoedd a busnesau yn ystod cyfnod yr argyfwng, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth benodol sy'n ymwneud â safleoedd gwyliau, gwestai, llety gwely a brecwast a mathau eraill o lety gwyliau (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hosteli a thai preswyl), gan gynnwys eithriadau penodol at ddibenion cyfyngedig.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r angen am y cyfyngiadau bob 21 diwrnod , a chynhelir yr adolygiad cyntaf erbyn 15 Ebrill..  Cyn gynted ag y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen y cyfyngiadau mwyach i atal, amddiffyn yn erbyn, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â coronafeirws, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd. Mae cau'r busnesau, felly, yn parhau hyd nes y rhoddir cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo coronafeirws. Datganwyd coronafeirws fel Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 11 Mawrth 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drawsyrru. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, yn asesu'r risgiau i iechyd y cyhoedd yn deillio o coronafeirws yn uchel. Mae nifer y trosglwyddiadau a'r derbyniadau i ysbytai yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ac mae ymateb brys yn hanfodol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae'r cyfyngiadau yn ffurfio rhan o ymateb y DU i coronafeirws. Mae cyfyngiadau wedi'u rhoi yn eu lle hefyd gan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â busnesau, mannau cyhoeddus a symudiad unigolion yn Lloegr.

## 5. Ymgynghoriad

Wrth ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o coronafeirws a'r angen am ymateb brys i iechyd y cyhoedd, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus barhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog Prydain.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.